

Canllawiau Llwybrau Gyrfa

Llwybr Gyrfa yw pan fo gweithiwr yn cael ei gefnogi i ddatblygu'r sgiliau, profiad a/neu gymwysterau penodol sy'n ofynnol er mwyn cyflawni rôl. Mae gan bob rôl yn y Cyngor set o sgiliau, gwybodaeth, profiad a/neu gymwysterau sy'n cael eu hystyried yn hanfodol er mwyn cyflawni rôl. Pan fydd rheolwr naill ai'n profi anawsterau recriwtio oherwydd diffyg ymgeiswyr gyda'r holl feini prawf hanfodol, neu pan fo cyfle datblygu yn cael ei nodi i 'dyfu ein hunain', gellir defnyddio Llwybr Gyrfa.

Bydd Prentisiaethau traddodiadol yng Nghyngor Sir Ddinbych yn cael eu disodli gan y Llwybr Gyrfa, gan sicrhau ein bod yn denu safon uwch o ymgeiswyr, buddsoddi yn ein gweithlu ar gyfer y dyfodol a defnyddio'r cyllid ardoll (neu dreth Prentisiaeth) rydym yn ei dalu; mae'r Ardoll/treth yn cael ei dalu gan bob cyflogwr gyda bil cyflogau o fwy na £3m, ac mae'n 0.5% o gyfanswm y bil cyflogau.

Mae 2 fath o Llwybr Gyrfa; rhai sy'n defnyddio Fframwaith Darparu'r Dysgu/Coleg (a oedd yn cael eu galw'n Prentisiaethau), a'r rhai nad ydynt yn defnyddio Fframwaith. Mae Fframwaith yn wahanol i gyrsiau hyfforddiant eraill gan eu bod yn cynnwys 3 elfen; NVQ, Tystysgrif Dechnegol, a Sgiliau Hanfodol, tra bod cyrsiau hyfforddiant eraill fel arfer yn NVQ yn unig neu Dystysgrif Dechnegol yn unig.

Llwybrau Gyrfa Fframwaith

Gyda chyflwyniad yr Ardoll Prentisiaethau, a'n hymrwymiad i sicrhau bod pob Prentisiaeth yn hanfodol i'n busnes, anogir rheolwyr i ddefnyddio Fframwaith lle bo'n bosibl. Mae'r rhain yn darparu'r cymhwyster sydd ei angen ar gyfer y rôl, a phrofiad a sgiliau yn y swydd, gan ddarparu profiad dysgu cyfannol. Gellir adeiladu Llwybr Gyrfa o amgylch y modiwlau Fframwaith a phrofiad gwaith i gefnogi'r busnes, e.e. mae cynnydd o un radd i'r llall yn ddibynnol ar gwblhau modiwlau penodol, a chyflawni tasgau penodol yn y gwaith. Gall rheolwyr hefyd fod am i'r gweithiwr gyflawni cyrsiau byr traddodiadol, e.e. cynnal cwrs byr LANTRA yn ogystal â Fframwaith Adeiladu er mwyn diwallu anghenion y rôl yn y pen draw, neu gyflawni sesiwn hyfforddiant Sgiliau Ffôn wrth gyflawni'r Fframwaith Gweinyddu Busnes.

Llwybrau Gyrfa Di-Fframwaith

Mae Llwybrau Gyrfa nad ydynt yn defnyddio Fframwaith yn dilyn yr un broses ond nid oes angen i'r Hyfforddai gyflawni cymhwyster Fframwaith. Gallai fod cyrsiau eraill mae eu hangen sy'n cael eu darparu fel cwrs byr neu sesiwn hyfforddiant, yn hytrach na Fframwaith, neu mae'n bosibl bod angen iddynt adeiladu eu profiad a gwybodaeth yn hytrach na chymwysterau.

Ar gyfer y ddau Llwybr Gyrfa, dilynwch y siart lif isod. Caiff y gweithiwr ei slotio i'r rôl barhaol pan fydd yn gwbl gymwys, heb fod angen gwneud cais.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â Llwybrau Gyrfa, cysylltwch ag AD ar 01824 706200 i gael trafodaeth a chefnogaeth.

Llwybr Gyrfa wedi'i nodi

Fframwaith Dysgu wedi'i nodi? – AD i gynorthwyo'r rheolwr os oes angen

AD i gysylltu â'r coleg a'r Rheolwr i drafod addasrwydd i'r fframwaith yn erbyn y swydd arfaethedig

Llwybr gyrfa wedi'i ddatblygu ond heb ei gysylltu â fframwaith dysgu swyddogol

Swydd-ddisgrifiad wedi'i nodi a'i ganfod ar gyfer y swydd yn y pen draw. Datblygu'r llwybr gyrfa a'r swydd-ddisgrifiad ar gyfer y swydd lefel mynediad (gan ddefnyddio templed hysbyseb)

Ffurflen Rheoli Swydd Wag Llwybr Gyrfa i gael ei llenwi a'i hawdurdodi a'i hanfon i AD gyda'r Swydd-ddisgrifiadau ar gyfer y swydd yn y pen draw a'r swydd lefel mynediad a'r llwybr gyrfa.

AD i ganfod swydd yn y pen draw ar GLPC a gwerthuso swydd lefel mynediad a darparu cyfeirnodau Swydd a gradd ddangosol i'r rheolwr cyn pen 10 diwrnod o gyflwyno.

AD i brosesu'r dogfennau fel sy'n ofynnol a hysbysebu'r swydd yn unol â'r cyfarwyddyd ar y Ffurflen Rheoli Swydd Wag a phroses recriwtio arferol i ddilyn.

Rheolwr a gweithiwr i gynnwys llwybr gyrfa fel amcan i'w drafod a'i ddatblygu mewn cyfarfodydd 1 i 1 ac arfarniadau perfformiad.

Cynnydd llwybr gyrfa wedi'i nodi pan fo angen, a ffurflen Cynnydd Llwybr Gyrfa i gael ei llenwi, ei hawdurdodi a'i hanfon i AD i gael ei weithredu.